MAI 2023 CYFROL. 1

Y FFORWM

Cylchlythyr Fforwm Cyfathrebu UNSAIN Cymru

YN Y RHIFYN HWN

LANSIO LLAWLYFR FFORWM CYFATHREBU - YDYCH CHI WEDI CAEL EICH UN CHI?

DYDDIADAU AR GYFER EICH DYDDIADUR

GWNEUD GWAITH GYDA'R WASG YN HAWDD

Lluniwyd y cylchlythyr hwn gan wirfoddolwyr y Fforwm Cyfathrebu. Anfonwch unrhyw ymholiadau neu awgrymiadau ar gyfer cyfrolau yn y dyfodol at: a.gittins@unison.co.uk

Llawlyfr Fforwm Cyfathrebu Cymru

Yn gynharach eleni, lansiodd Fforwm Cyfathrebu UNSAIN Cymru eu llawlyfr cyntaf erioed ar gyfer swyddogion cyfathrebu ar draws y rhanbarth – a thu hwnt!

Bu Cadeirydd y Fforwm Cyfathrebu Terry Evans a'r Is-Gadeirydd Helen Doughty yn annerch y Cyngor Rhanbarthol i gyflwyno'r llawlyfr dwyieithog sydd â'r nod o geisio grymuso swyddogion cyfathrebu'r presennol a'r dyfodol ledled Cymru. Mae'r llawlyfr yn darparu awgrymiadau i'r rhai sydd newydd ddechrau arni, neu i swyddogion profiadol sydd am gael syniadau newydd. Fe'i lluniwyd gan grŵp gwirfoddol gweithgar a chafwyd adborth gwych gan y cynrychiolwyr a oedd yn bresennol.

Gellir gwneud cais am gopïau o'r llawlyfr gan Alastair yn y rhanbarth neu ei lawrlwytho drwy'r ddolen hon: https://cymru-wales.unison.org.uk/content/uploads/sites/9/2023/02/Communications-Forum-Handbook-Bilingual.pdf

LANSIAD Y LLAWLYFR YN Y CYNGOR RHANBARTHOL YM MIS CHWEFROR. CHWITH - DDE: DOMINIC MACASKILL (YSGRIFENNYDD RHANBARTHOL), HELEN DOUGHTY, TERRY EVANS A JAN TOMLINSON (CYNULLYDD RHANBARTHOL)

Dyddiadau ar gyfer eich dyddiadur

Cynhelir digwyddiadau nesaf y Fforwm Cyfathrebu:

- Dydd Gwener 23ain Mehefin – Dydd Sul 25ain Mehefin; penwythnos hyfforddiant preswyl, Llandrindod, Gwesty'r Metropole
- Dydd Gwener 29ain Medi – Cyfarfod Fforwm, Llandrindod/hybrid, Canolfan Adnoddau Cyfryngau

Archebwch eich lle gydag Alastair: a.gittins@unison.co.uk

Gwneud gwaith gyda'r wasg yn hawdd *Gyda Rupert Denholm-Hall*

Mae fy swydd yn cynnwys ymdrin â'r holl ymholiadau ddaw gan y wasg sy'n ein cyrraedd o bobman o wefannau newyddion ar-lein i ddarlledwyr teledu a radio cenedlaethol. Mae fy rôl yn ymwneud â chynnal a datblygu adran newyddion gwefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol UNSAIN Cymru. Rwyf hefyd yn ysgrifennu datganiadau i'r wasg i hyrwyddo ymgyrchoedd yr ydym yn gweithio arnynt ac i dynnu sylw at effaith materion megis yr argyfwng costau byw ar y miloedd lawer o weithwyr sector cyhoeddus rydym yn eu cynrychioli ledled Cymru.

Yn ogystal â hyn rwy'n sicrhau bod ysgrifenyddion ein canghennau, y tîm trefnu a swyddogion cyfathrebu yn ymwybodol o'r gwaith rydym yn ei wneud gyda'r cyfryngau drwy rannu'r sylw a gawn yn y wasg; hyn yn ogystal ag annog rhannu unrhyw ddeunydd cyfryngau cymdeithasol yr ydym wedi'i greu, ac unrhyw sylw mae UNSAIN wedi'i dderbyn ar-lein yng Nghymru.

Fel cyn-newyddiadurwr print a swyddog y wasg i AS mainc flaen cysgodol, rwyf hefyd wrth law i roi cyngor a hyfforddiant cyfryngau i unrhyw ddarpar ymgeisydd sy'n mynd i gael ei gyfweld gan newyddiadurwr.

Rupert yw swyddog y wasg a'r cyfryngau ar gyfer UNSAIN Cymru, ac mae wrth law i gynnig cymorth i ganghennau yn eu gwaith cyfryngau, ar ddatganiadau i'r wasg yn ymwneud ag ymgyrchoedd cangen yn y gweithle, ac os ydynt am hyrwyddo straeon newyddion da. Cysylltwch ag ef os hoffech gael cymorth ar gyfer eich gwaith gyda'r wasg: r.denholm-hall@unison.co.uk